# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MAWRTH, 30AIN MEDI, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Jasmine Jones**

**01286 679667**

**jasminejones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 22 Medi 2025)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |
| Gwilym Jones | Aelod Lleol |
| June Jones | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Dr Melfyn Edwards | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| Sedd Wag | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| I'w gymeradwyo | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| I'w gymeradwyo | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| I'w gymeradwyo | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Chris Fisher | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Desmond George | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| David Williams | Deputy - Aberdyfi Harbour Consultative Committee |
| Stephen Tudor | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| R Medwyn Hughes | Cabinet Member for Economy and Community |

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025-2026.

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025-2026.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw fater brys yn ôl barn y Cadeirydd i'w ystyried.

**6. COFNODION** 4 - 8

Y Cadeirydd i gynnig bod cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 04/03/25 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 9 - 16

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 03/03/26.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 04/03/25

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd Richard Medwyn Hughes (Cyngor Gwynedd) (Aelod Cabinet Economi a Chymuned)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Daniel Arthur Cartwright (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog), Richard Hughes (Harbwrfeistr Cynorthwyol Porthmadog), Sioned Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**SYLWEDYDD:** Desmond George (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) a Chris Fisher (Sefydliad y Bad Achub Criccieth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) a Chris Fisher (Sefydliad y Bad Achub Criccieth).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Nodwyd bod tri unigolyn wedi rhoi eu henwau ymlaen i gynrychioli gwahanol fuddiannau ar y pwyllgor hwn:

- Jenny Howels (Clwb Hwylio Porthmadog a Thrawsfynydd) – yn cynrychioli buddiannau hamdden.
- Richard Owen (Robert Owen Marine) – yn cynrychioli buddiannau diwydiannol.
- Richard Aherne (Clwb Rhwyfo) – yn cynrychioli'r clwb rhwyfo.

Adroddwyd, yn dilyn ymgynghoriad â chynghorwyr cyfreithiol, bod wedi'i benderfynu y bydd angen i'r unigolion hyn gael eu penodi'n ffurfiol gan y Cabinet. Gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor ymgynghori ar y mater, ac ymrwymo i benderfynu a ddylid derbyn yr unigolion hyn fel aelodau o'r Pwyllgor.

Cytunwyd aelodau'r pwyllgor i dderbyn y tri unigolyn i gynrychioli gwahanol fuddiannau ar y pwyllgor hwn.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 01/10/24 fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

(1) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad bras i'r pwyllgor ar faterion yr Harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2024 a Mawrth 2025.

<u>Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod</u>

Adroddwyd bod gwaith adnewyddu a chynnal a chadw'r cadwyni ac angorfeydd , sydd wedi'u lleoli yn yr harbwr, yn cael ei gwblhau gan gontractwr angorfeydd a benodwyd yn lleol. Mynegwyd y disgwyliad y dylai cwsmeriaid sy'n dymuno sicrhau angorfa yn yr harbwr, neu gofrestru eu cychod dŵr ar gyfer y tymor sydd i ddod, gwblhau'r broses berthnasol ar-lein yn brydlon o 1 Ebrill ymlaen, drwy wefan Cyngor Gwynedd. Tanlinellwyd, os oes angen cymorth neu arweiniad i gwblhau'r prosesau angenrheidiol, bod croeso i gwsmeriaid gysylltu â swyddfa'r harbwr, lle bydd staff yn hapus i helpu. Mynegwyd gobaith y bydd cyfnod yr haf eleni yn gyfnod prysur.

<u>Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd</u>

Adroddwyd bod y gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau o fewn ei awdurdodaeth, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Nodwyd, fel rhan o'r broses adolygu, ei bod yn angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol, ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys.

<u>Materion Staffio</u>

Adroddwyd bod Mr Daniel Cartwright, cyn-Harbwrfeistr Harbwr Abermaw, wedi'i benodi fel Uwch Swyddog Harbyrau yn lle Mr Arthur Jones. Dechreuodd Mr Daniel Cartwright gymryd cyfrifoldeb am ei rôl ar 1 Rhagfyr 2024, gan fod Mr Arthur Jones yn ymddeol yn swyddogol o'r Gwasanaeth ar 31 Mawrth. Diolchwyd i Mr Arthur Jones am ei waith yn y gwasanaeth ac ar y Pwyllgor hwn dros y blynyddoedd.

Nodwyd bod Harbwrfeistr, Mr Malcolm Humphreys, a'i gymhorthydd, Mr Richard Hughes, yn parhau i ddarparu gwasanaeth i ymwelwyr a chwsmeriaid yr harbwr, gyda staff morwrol wedi'u lleoli yn harbyrau Abermaw ac Aberdyfi hefyd ar gael i gynorthwyo os bydd angen.

Nodwyd bod swyddogion wedi ymgymryd â gwaith cynnal a chadw yn yr harbwr, yn ogystal â gwaith ychwanegol ym Mhorth-y-Gest ac ar draethau cyfagos Morfa Bychan a Chricieth. Nodwyd ymhellach bod bwriad penodi swyddogion traethau tymhorol ar draethau Morfa Bychan a Chricieth ar gyfer tymor prysur yr haf.

Adroddwyd bod perchenog llong cludo y 'Terra Marique' wedi cysylltu â'r Uwch Swyddog Harbyrau i drafod y posibilrwydd o ddychwelyd i draeth Morfa Bychan . Nodwyd y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor pan fydd mwy o fanylion ar gael.

Materion Ariannol

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol grynodeb byr o gyllidebau'r Harbwr ar gyfer y cyfnod 01/04/24 – 31/03/25 (Adolygiad Tachwedd 2024), a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad. Nodwyd yn benodol:

- Bod gorwariant o dan y pennawd Gweithwyr oherwydd costau goramser. Nodwyd bod staff yr Harbwr wedi bod yn cynorthwyo mewn harbyrau eraill ac ar draeth Morfa Bychan. Nodwyd ymhellach bod costau ychwanegol wedi codi gan fod Mr Arthur Jones wedi aros yn ei swydd yn hirach nag a ragwelwyd. Tanlinellwyd bod y gorwariant hwn wedi'i ragweld.
- Bod tanwariant sylweddol o dan y pennawd Eiddo, gan nad oedd difrod sylweddol wedi digwydd o ganlyniad i'r stormydd. Nodwyd y gellid defnyddio'r arian hwn i gwrdd â gorwariant o dan benawdau eraill o'r gyllideb, megis Gwasanaethau a Chyflenwadau.
- Bod tanwariant hefyd o dan y pennawd Trafnidiaeth, ond rhagwelir y bydd y gwariant yn cynyddu yn yr wythnosau nesaf gan fod tanciau'r Dwyfor wedi cael eu llenwi â disel.
- Bod gorwariant o dan y pennawd Gwasanaethau a Chyflenwadau am nifer o resymau, yn benodol oherwydd y gost sylweddol o brynu a chynnal offer arbenigol. Mynegwyd y farn nad oedd digon o gyllideb wedi'i glustnodi ar gyfer y pennawd hwn.
- Bod gwariant o'r Gronfa Forwrol yn debygol o gynyddu, gan fod y compownd yn mynd i gael ei ail-wynebu. Rhagwelir y bydd tua £10,000 yn cael ei wario i'w uwchraddio. Nodwyd bod y £525 sydd eisoes wedi'i nodi yn cyfarch gwaith o blannu planhigion a gwella cefn y compownd.
- Rhagwelir tanwariant yn y cyfanswm gwariant, ond, er hynny, nodwyd nad yw'r gwasanaeth wedi llwyddo i gyrraedd ei darged incwm, yn bennaf oherwydd y tywydd gwael a gafwyd.
- Rhagwelir y bydd costau rhedeg yr Harbwr ar gyfer y cyfnod yma yn dod i £38,728, gyda diffyg o tua £8,000.

Pwysleisiwyd y newidiadau i'r broses o gofrestru beiciau dŵr a chychod pŵer, sydd bellach ar-lein. O ganlyniad, mae'r holl incwm bellach yn mynd i'r gyllideb Traethau yn hytrach nag i'r Harbwr, fel ag yr oedd dan y drefn flaenorol. Nodwyd ymhellach bod cyllideb yr Harbwr wedi'i heffeithio'n negyddol gan y gostyngiad yn nifer y beiciau dŵr a gofrestrwyd gyda Chyngor Gwynedd eleni (lleihad o 368), sy'n golygu bod llai o ffioedd lansio wedi'u talu i'r Harbwr.

Ffioedd a Thaliadau 2025/26

Adroddwyd bod y Gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant ar y pryd, sef 2.89%. Ymhelaethwyd bod targed incwm yr harbwr yn codi ar yr un gyfradd i £88,590, ac felly bod angen dod o hyd i'r arian ychwanegol i gyrraedd y targed hwn. Nodwyd bod y Gwasanaeth wedi codi rhai ffioedd yn uwch na'r gyfradd chwyddiant a rhai yn is, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng harbyrau.

Adroddwyd bod ffioedd cofrestru badau pŵer yn dod ag oddeutu £200,000 i mewn i'r Gwasanaeth Traethau. Serch hynny, nodwyd bod angen cynyddu'r ffi gofrestru flynyddol o £70 i £75; a'r ffi hawlen flynyddol lansio o £180 i £190. Ar gyfer cychod sydd â llai na 10 'horse power', bydd y ffi un tro yn codi o £40 i £42. Nodwyd ymhellach bod y ffi lansio ddyddiol yn bwriadu cael ei chodi o £22 i £23. Ymhelaethwyd bod angen bod yn ofalus gyda chodi'r ffi yma, gan fod perygl y gallai defnyddwyr droi at safleoedd lansio mewn ardaloedd eraill os bydd y pris yn codi'n ormodol.

(2) Adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2024 a Mawrth 2025, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

Cyn cychwyn cyflwyno ei adroddiad, diolchodd yr Harbwrfeistr i Mr Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau) am ei waith caled dros yr un ar ddeg mlynedd ddiwethaf. Croesawyd Daniel Arthur Cartwright i'r Gwasanaeth yn ei swydd newydd fel Uwch Swyddog Harbyrau.

Adroddwyd bod Hysbysiad Lleol i Forwyr wedi'i gyhoeddi ar gyfer Bwi Rhif 11 a'r "Bwi Tramwyo ". Ymhelaethwyd bod Bwi Rhif 11 wedi'i ail-leoli yn ddiweddar , a disgwylir i'r Bwi Tramwyo gael ei adleoli o fewn y pythefnos nesaf – mae'r gwasanaeth yn aros am y contractwr ar hyn o bryd.

Nodwyd, gan fod ffi cofrestru beiciau dŵr a chychod pŵer wedi cynyddu, bod nifer cynyddol o bobl bellach yn dewis talu am hawlen lansio flynyddol. O ganlyniad, mae'r harbwr yn colli allan ar incwm. Nodwyd ymhellach bod y gwasanaeth yn ceisio annog cwsmeriaid i drosglwyddo i'r system ddigidol newydd ar gyfer cofrestru cychod. Ymhelaethwyd bod llawer o bobl yn anfodlon defnyddio'r system newydd gan ei bod ar-lein.

Adroddwyd bod gwaith wedi cychwyn yn dilyn yr archwiliad a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2024, i osod cadwyni codi newydd ar 13 o angorfeydd. Mynegwyd gobaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau o fewn yr wythnos. Nodwyd bod gwaith yn parhau i ail-wynebu'r compownd, ond bod ansicrwydd a fydd modd cwblhau'r holl ardal oherwydd maint y safle a'r costau sy'n gysylltiedig, sydd yn fwy na'r gyllideb sydd wedi'i glustnodi. Nodwyd ymhellach bod coed newydd wedi'u derbyn i'w gosod ar y meinciau eistedd ym Mhorth-y-Gest.

Adroddwyd bod 40 o blanhigion Griselinia wedi'u plannu o flaen ffensys pren yr harbwr sy'n wynebu llithrfa'r harbwr, gyda'r nod o wneud yr ardal yn fwy deniadol yn weledol. Yn ogystal, adroddwyd, yn dilyn cyngor, bod y ddraig o'r enw "Dixie" bellach wedi'i lleoli ar wely o lechi y tu ôl i swyddfa'r harbwr, mewn amgylchedd diogel. Mynegwyd gobaith y bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cyfrannu syniadau ar eiriau i'w gosod ar y bwi addurnol sydd wedi'i leoli ar ochr y bont.

Awgrymodd y Cynghorydd Gwilym Jones y dylid cynnwys geiriau sy'n ymwneud ag 200fed pen-blwydd yr harbwr ar y bwi addurnol. Awgrymodd y Cynghorydd June Jones y gallai enwau'r holl gychod a adeiladwyd yn Harbwr Porthmadog gael eu cynnwys ar y bwi, gyda mewnbwn gan yr Amgueddfa Forol yn Mhorthmadog. Mynegwyd gobaith hefyd o adfer hen winsh o Gob Crwn, Llyn Bach, y gellid ei osod o bosib yn Harbwr Porthmadog fel rhan o ddathliadau'r 200 mlynedd. Ymhelaethwyd

bod angen darganfod pwy sy’n gyfrifol am y winsh, a chytunodd y Cynghorydd June Jones i edrych ymhellach i mewn i’r mater.

Diolchwyd am yr adroddiad. Ategwyd gan Reolwr y Gwasanaeth Morwrol ei fod wedi derbyn hysbysiad am y posibilrwydd fod llong y Terra Marique, yn ymweld â Phorthmadog (Traeth Morfa Bychan) cyn gwyliau’r haf. Nodwyd bod y llong wedi ymweld ddwywaith yn y gorffennol, a bod y trefniadau wedi gweithio’n effeithiol ar y ddau achlysur.. Fodd bynnag, nodwyd bod croesawu’r cwch yn brosiect sylweddol sy’n golygu newidiadau sylweddol i bentref Morfa Bychan. Ymhelaethwyd y bydd aelodau’r Pwyllgor yn cael eu diweddaru yn ôl y galw wrth i ragor o wybodaeth ddod i’r fei.

**PENDERFYNIAD Nodi a derbyn yr adroddiad.**

**6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30/09/25.

Dechreuodd y cyfarfod am 5:30yp a daeth i ben am 6:20yp.

______________________________
(Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. |
| **Dyddiad:** | 30/09/2025 |
| **Awdur:** | Uwch Swyddog Harbwr |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar faterion Rheoli Gwasanaeth |

1 **CEFNDIR**

1.1 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelwch a datblygu'r harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad ar faterion rheoli sy'n ymwneud â'r harbwr, a gwahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

2. **DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI GWASANAETH**

2.1 Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y gwasanaeth.

**<u>Data Perfformiad</u>**

2.2 Mae'r data isod yn cael ei gasglu fel rhan o drefniadau monitro a rheoli perfformiad y Gwasanaeth Morwrol.

| | **2023/4** | **2024/5** | **2025/6** |
|---|---|---|---|
| **Cytundebau Angori** | | | |
| Porthmadog | 106 | 109 | 106 |
| Abermaw | 71 | 78 | 81 |
| Aberdyfi | 73 | 79 | 83 |

2.3 Fel y gwelir, mae'r ffigyrau ar gyfer cytundebau angori yn nhymor 2025 yn cymharu'n ffafriol â blynyddoedd cynt, er bod amrywiadau rhwng harbyrau unigol, mae'r ffigyrau cyffredinol wedi aros yn gyson, sy'n gadarnhaol.

2.4 Bu cynnydd o 10% yn nifer y cychod pŵer a gofrestrwyd gyda Chyngor Gwynedd y tymor hwn o gymharu ag y llynedd, yn codi o 2,141 to 2,362.

2.5 Mae'r Gwasanaeth yn gofyn yn garedig i holl gyflenwyr/deiliaid angorfeydd o fewn yr harbwr ddarparu manylion yr holl gychod a chwsmeriaid i swyddfa'r harbwr cyn gynted â phosib.

2.6 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn casglu data ar lefelau boddhad defnyddwyr yr harbwr:

**Cyfradd canran boddhad yr harbyrau a reolir gan y Gwasanaeth Morwrol**

| | 2023/4 | 2024/5 | 2025/6 |
|---|---|---|---|
| **Boddhad Cwsmer** | | | |
| Rhagorol | 40% | 60% | 63% |
| Da iawn | 30% | 24% | 25% |
| Boddhaol | 20% | 16% | 6% |
| Gwael | 10% | 0% | 2% |
| Gwael Iawn | 0% | 0% | 0% |
| Anhysbys | 0% | 0% | 4% |

2.6.1 Mae'r ffigyrau hyn yn dangos y cynnydd mewn adborth 'positif' a dderbyniwyd yn ein harbyrau, ynghyd â'r ymdrechion a wnaed gan yr adran i wella profiad cwsmeriaid ac ymwelwyr ymhellach.

2.6.2 **<u>Adborth a dderbyniwyd am Harbwr Porthmadog</u>:**

**Ymatebion positif:**

- Mae staff yr harbwr yn hawdd i siarad efo nhw, yn wybodus ac yn rhoi cymorth a chefnogaeth"
- "Gofal cwsmer grêt, byddaf yn ymweld efo"
- "Lle da iawn i fwynhau hel crancod gyda'r teulu".
- "Harbwr glân sy'n cael ei reoli a'i gadw'n dda".
- "Digonedd o lefydd i eistedd a mwynhau'r harbwr, gyda golygfeydd anhygoel".
- "Mae'r harbwr yn darparu nifer o finiau a meinciau, ac mae'r harbwr bob tro'n lân ac yn daclus".
- "Mae'r cerfluniau newydd yn grêt ac mae'r plant yn mwynhau ymweld â Dixie"

**Ymatebion negyddol:**

- "Diffyg toiledau"
- "Dim digon o barcio ar gyfer cwsmeriaid yr harbwr"
- "Unlle i barcio trelar fy nghwch"
- "Y maes parcio yn rhy fach"
- Gormod o fwd ar waelod y llithrfa"
- "Mae symudiad y banc tywod yn y sianel yn broblem"
- "Angen datblygu'r ardal tu ôl i swyddfa'r harbwr drwy adael i fusnesau osod bwrdd a chadeiriau yno fel y gall pobl fwynhau'r golygfeydd tra eu bod yn yfed neu'n cael tamaid i'w fwyta. Beth am gael marchnad wythnosol?

Rydym yn croesawu ac yn cydnabod pob adborth a gawn am ein harbyrau, a byddwn yn parhau i drafod unrhyw faterion neu bryderon a godwyd er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach.

2.7 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. I sicrhau ein bod yn cydymffurfio, caiff ein harbyrau eu harchwilio'n rheolaidd gan arbenigwr allanol. Rydym yn falch o gadarnhau penodiad diweddar Mr Owen Morgan, Rheolwr Harbwr ar gyfer Cyngor Ceredigion, fel ein 'Person Dynodedig' newydd. Bydd Mr Morgan yn cynnal yr archwiliad nesaf yn ystod misoedd y gaeaf a bydd yn rhoi arweiniad i ni i sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion diweddaraf y PMSC. Yn dilyn yr archwiliad hwn bydd y gwasanaeth yn cyhoeddi fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r cod ar wefan gyhoeddus y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru.

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r PMSC, rydym yn cynnig cyfleodd hyfforddiant a datblygiad parhaus i'n staff morwrol. Rydym yn falch o gyhoeddi bod un aelod o staff yn ddiweddar wedi cwblhau'r 'Diploma Harbwrfeistr' tra bod aelod arall wedi dechrau'r cwrs 'UKHMA Harbour Master Certificate' diweddaraf - dymunwn bob llwyddiant iddynt gyda'u datblygiad proffesiynol.

2.8 Oherwydd natur eu gwaith, yn anffodus mae ein swyddogion weithiau'n profi ymddygiad difrïol, bygythiol ac ymosodol. Er mwyn sicrhau diogelwch staff a'r cyhoedd, mae swyddogion nawr yn gorfod gwisgo camerâu ar eu cyrff i roi gwarchodaeth iddynt ac i recordio unrhyw ddigwyddiadau.

2.9 MAIB (Cangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol): Mae'n bleser gennym gyhoeddi nad oes unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau morwrol wedi'u hadrodd i 'MAIB' hyd yn hyn eleni.

2.10 <u>Trinity House GLA (Awdurdod Goleudai Cyffredinol)</u>

Un flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth yw sicrhau mordwyo diogel i'r holl forwyr sy'n defnyddio ein dyfrffyrdd. Fel 'LLA' (Awdurdod Goleudy Lleol) cofrestredig, rydym yn cynnal arolygon rheolaidd o sianel yr harbwr i sicrhau bod yr holl Gymhorthion Mordwyo Lleol wedi'u lleoli'n gywir ac yn gweithio'n iawn. Mae arolygon a chofnodion ar gyfer A i N yn cael eu llwytho i fyny i gronfa ddata Trinity House. Daeth yr adroddiad diweddaraf i'r casgliad bod 95.47% o Gymhorthion Mordwyo Cyngor Gwynedd ar gael, gyda'r gwasanaeth yn cael ei ystyried mewn "Cyflwr Da".

3.0 **Adnoddau a Chyllideb**: Mae crynodeb o'r gyllideb ar gyfer Harbwr Porthmadog i'w gweld isod:

| PORTHMADOG HARBOUR | Financial Performance for the Period 1 April 2025 to 31 March 2026 - August 2025 Review | | |
|---|---|---|---|
| | BUDGET / TARGETS FOR THE PERIOD 1/4/25 TO 31/3/26 | INCOME & EXPENDITURE FORECASTED 1/4/25 TO 31/3/26 | OVER (UNDER) |
| Employees | 79,918 | 83,825 | 3,906 |
| | | | |
| Buildings | 18,870 | 5,942 | (12,928) |
| | | | |
| Transport | 740 | 586 | (154) |
| | | | |
| Supplies & Services | 23,770 | 24,292 | 522 |
| | | | |
| One - Off Expenditure - Financed from Reserves | 0 | 3,384 | 3,384 |
| | | | |
| **Total Expenditure** | **123,298** | **118,029** | **(5,270)** |
| | | | |
| Income | (76,590) | (70,986) | 5,604 |
| Contribution from Reserves Tow | 0 | (3,384) | (3,384) |
| | | | |
| **Total Net** | **46,708** | **43,658** | **(3,050)** |

3.1. Materion Allweddol Eraill:

- Cefnogwyd y gwaith o ddatblygu swyddfa'r harbwr a'r compownd drwy 'gronfeydd wrth gefn' adrannol.
- Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gofyn am luniau o system teledu cylch cyfyng newydd yr harbwr ar sawl achlysur eleni i gynorthwyo gydag ymchwiliadau i ddigwyddiadau yn ardal yr harbwr.
- Mae sawl digwyddiad o ddwyn moduron allanol wedi'u hadrodd ar hyd yr arfordir - roedd y digwyddiad diweddaraf ym Mhorth-y-gest. Mae'r gwasanaeth yn cynghori y dylai unrhyw un sydd â gwybodaeth berthnasol gysylltu â HGC.
- Mae'r llongau patrôl morwrol (powercats) yn cydymffurfio'n llawn â gofynion codio 'Cat 6' ar ôl iddynt gael eu harchwiliad blynyddol gan yr YBDSA.
- Unwaith eto, mae'r gwasanaeth wedi gweld lefelau staffio is mewn rhai safleoedd dan oruchwyliaeth. Fodd bynnag, mae swyddogion harbwr wedi darparu cefnogaeth a chymorth gwerthfawr pan fo angen.
- Mae trafodaethau'n parhau gyda Chlwb Rhwyfo Porthmadog ynglŷn â chytundeb prydles ffurfiol ar gyfer yr ardal o fewn compownd yr harbwr a ddefnyddir i storio cychod rhwyfo'r Clwb. Nid oes gan y gwasanaeth unrhyw wrthwynebiadau i'r cytundeb arfaethedig ac mae'n nodi bod y Clwb Rhwyfo yn parhau i gynnal yr ardal i safon uchel.

**4.0 ARGYMHELLION**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. |
| **Dyddiad:** | 30 Medi 2025 |
| **Awdur:** | Harbwrfeistr M. Humphreys |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Gweithredol |

**1. CEFNDIR**

1.1 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol sy'n ymwneud â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

**2.0 ADRODD AR FATERION GWEITHREDOL**: Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y gwasanaeth.

2.1 Mae tywydd braf wedi arwain at fwy o weithgarwch ar y dŵr, o gychod hwylio, cychod pŵer, a mwy o badl-fyrddau. Tra bod y gwasanaeth yn croesawu'r twf hwn mewn gweithgarwch, hoffem atgoffa morwyr a’r rhai sy'n defnyddio'r dŵr o bwysigrwydd cymryd rhagofalon diogelwch priodol. Mae defnyddio siacedi bywyd, rhaffau a dulliau dibynadwy o gyfathrebu gyda'r lan (VHF/ffôn symudol) yn gallu achub bywydau. Mae'r adran wedi ymateb i nifer o ddigwyddiadau lle nad oedd yr unigolion yn ymwybodol o'r peryglon a achosir gan dywydd gwael a chyflwr y môr. Cynghorwn yn gryf y dylai holl ddefnyddwyr y dŵr baratoi'n ddigonol a gwybod beth yw'r amodau'n lleol cyn cychwyn allan.

2.2 Mae'n braf nodi bod cychod sy'n ymweld yn parhau i ddewis harbyrau Cyngor Gwynedd fel lle i angori. Trwy gydol y tymor fe deithiodd nifer o gychod rhwng ein harbyrau, ac rydym wedi derbyn adborth positif yn gyson ynghylch y cyfleusterau a ddarperir a phroffesiynoldeb staff yr harbyrau.

2.3 Hoffai'r gwasanaeth roi gwybod bod yn rhaid i holl gwsmeriaid newydd yr harbwr sy'n dymuno cael angorfa yn Harbwr Porthmadog, ymweld â swyddfa'r harbwr a llenwi'r ffurflen angorfa angenrheidiol a thrafod manylion y cwch. Gofynnwn i gwsmeriaid sydd eisoes ar y llyfrau ddefnyddio'r system cofrestru angorfa ar-lein – bydd modd mynd i'r system hon o 1 Ebrill 2026. Ni dderbynnir ffurflenni angori papur mwyach ar gyfer cwsmeriaid sy'n dychwelyd – rhaid cwblhau pob adnewyddiad a thaliad gan ddefnyddio'r system ar-lein. Os bydd unrhyw anhawster wrth gwblhau'r broses ar-lein, dylai cwsmeriaid gysylltu â swyddfa'r harbwr am gymorth.

3.0 **Materion Mordwyo:** Mae staff yr harbwr yn parhau i fonitro cwrs y sianel fordwyol. Ym mis Mai, codwyd pryderon ynglŷn â banc tywod yn symud rhwng y "Lookout Post" a'r "Danger Rock" lle mae afon Dwyryd yn cwrdd ag afon Glaslyn. Cyhoeddwyd Hysbysiad Lleol i Forwyr ym mis Mai i roi gwybod i ddefnyddwyr harbwr am y banc tywod hwn, gan y gallai greu anhawster wrth fordwyo ar lanw is. Mae'r banc tywod yn parhau i fod yn ei le, a'r gobaith yw y gall newid yn y tywydd dros y gaeaf helpu i'w leihau neu gael gwared arno. Felly, bydd Hysbysiad i Forwyr Rhif 5 yn aros mewn grym hyd nes gwyddwn fwy.

**3.1** Bydd arolygon o'r sianel yn parhau i sicrhau bod staff yr harbwr yn gallu ymateb yn brydlon, os oes angen ail-leoli unrhyw Gymhorthion Mordwyo. Nid yw'r sianel eilaidd, y credwyd yn flaenorol ei bod yn agor tuag at gyfeiriad Harlech, wedi datblygu ymhellach. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd Hysbysiad pellach i Forwyr yn cael ei gyhoeddi os oes angen.

**3.2** Ar adeg ysgrifennu, ar hyn o bryd mae dau Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym:

**3.2.1** Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 5/25. 07-05-2025 Banc Tywod yn Symud yn y Sianel rhwng y "Lookout Post" a'r "Danger Rock". Cynghorir morwyr i lywio'n ofalus yn yr ardal hon.

**3.2.2** Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 10/25 (25-08-2025) Mae Marc Starbord Borth y Gest Rhif 15 oddi ar ei safle ar hyn o bryd.

**3.2.3** Hysbysiad blaenorol i Forwyr Rhif 10/24 Dychwelwyd "Bwi Fairway oedd Oddi ar ei Safle" i'w safle cywir sef 52°52.970'N 004°11.200'W 25-03-2025

**3.3** Atgoffir morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw pan fyddant yn llywio cwch gyda dyfnder o fwy nag 1.5 metr. Mae'r cyfyngiad hwn oherwydd dyfnder y dŵr sydd ar gael dros y bar tywod wrth fynedfa'r môr i'r sianel fordwyo.

**3.4** Atgoffir morwyr hefyd i gysylltu â swyddfa'r harbwr cyn nesáu at y sianel, i dderbyn y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar VHF Ch12. Bydd newidiadau i unrhyw un o'r cymhorthion mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Hysbysiad Lleol i Forwyr ac maent ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd, mae'r gwasanaeth hwn hefyd ar gael mewn fformatau sy'n addas i bobl â nam ar eu golwg.

**3.5** **Materion penodol:**

**3.5.1** **Cerfluniau'r Harbwr:** Mae 'Dixie' y ddraig yn parhau i fod yn atyniad poblogaidd iawn gyda phobl leol ac ymwelwyr, gan dderbyn adborth cadarnhaol, yn enwedig gan blant sy'n tynnu lluniau wrth ei hymyl. Atyniad nodedig arall yw'r gosodiad newydd gan Howard Bowcott, sy'n denu sylw sylweddol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ddiweddar wedi gosod meinciau picnic cyfansawdd newydd fel y gall y cyhoedd fwynhau'r gweithiau celf newydd ac wrth gwrs yr harbwr ei hun.

**3.5.2** Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn ag adleoli'r hen hoist i ardal yr harbwr fel gosodiad ychwanegol.

**3.5.3** **Maes Parcio:** Mae'r gwasanaeth yn bwriadu gosod peiriant 'Talu ac Arddangos' solar newydd yn y maes parcio dros y gaeaf.

**3.5.4** Mae pryderon wedi cael eu codi ynglŷn â'r defnydd o'r maes parcio gan gerbydau mawr a chartrefi modur, sy'n amharu ar symudiad defnyddwyr eraill. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â hyn, bydd arwyddion newydd yn cael eu gosod. Yn ogystal, mae trafodaethau'n parhau gydag adrannau eraill ynghylch cyfeiriad y traffig o fewn y maes parcio, gan gynnwys gosod marciau cyfeiriadol posibl ar y ffordd i leddfu tagfeydd.

**3.5.5** **Borth-Y-Gest.** Yn ystod rhybuddion llifogydd diweddar nodwyd bod y gatiau llifogydd ym Mhorth-y-Gest wedi dioddef rhywfaint o ddifrod i'r cloeon. Mae'r gwasanaeth wedi gofyn am gymorth gan adrannau eraill i gywiro'r broblem.

**4.0 Cynnal a chadw**

**4.1** **Compownd yr Harbwr:** Mae'r planhigion *'Griselinia'* ar hyd ffens y compownd yn aeddfedu'n dda, a bellach yn gorchuddio rhan fawr o'r ffens ac yn gwella apêl gweledol y compownd.

**4.2** Mae sawl ychwanegiad i'r gwaith ar y compownd wedi dechrau. Mae dau bad concrit newydd wedi'u gosod i ddarparu arwyneb gwaith glanach a mwy defnyddiol. Mae ffensys cyfansawdd newydd wedi'u gosod ar ochr orllewinol y compownd i gyd-fynd â'r gatiau cyfansawdd newydd wrth y fynedfa i'r

compownd. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys adnewyddu'r giât fewnol, ffensys newydd a phlanhigion mewn tybiau.

**4.3** Mae pwynt gwasanaeth trydan newydd (gyda mesurydd) wedi'i osod ger y pwmp disel sy'n galluogi'r gwasanaeth i fonitro'r defnydd a chodi tâl yn gywir ar gyfer cwsmeriaid sy'n dymuno defnyddio'r cyfleuster.

**4.4** **Swyddfa'r Harbwr:** Mae'r gwasanaeth yn croesawu datblygiad swyddfa harbwr Porthmadog. Mae gwaith wedi dechrau i greu ystafell newydd tu mewn i'r adeilad i ddarparu swyddfa newydd ar y cyd ar gyfer yr Uwch Swyddog Harbwr a'r Swyddog Traethau. Mae hyn hefyd wedi golygu y bu modd adleoli'r ffreutur i ardal newydd, gan roi mwy o breifatrwydd i staff sy'n defnyddio'r cyfleusterau newid a thoiledau.

**5.0 Digwyddiadau**

5.1 Hoffai'r gwasanaeth atgoffa holl drefnwyr digwyddiadau o'r angen i roi gwybod i ni'n gynnar am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig.

5.2 Wrth ystyried a ddylid cymeradwyo digwyddiad, bydd y gwasanaeth yn rhoi sylw dyledus i'r wybodaeth a ddarperir sy'n manylu'r amgylchiadau. Mae'r gwasanaeth yn cadw'r hawl i osod unrhyw gyfyngiadau neu amodau sy'n angenrheidiol i sicrhau diogelwch y cyhoedd a staff.

**6.0 ARGYMHELLION:**

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.